



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2007 Rhif 3078 (Cy.265)

2007 No. 3078 (W.265)

**CYFRAITH TROSEDD,
CYMRU**

**CRIMINAL LAW,
WALES**

Rheoliadau Camddefnyddio
Sylweddau (Llunio a Gweithredu
Strategaeth) (Cymru)
2007

The Substance Misuse
(Formulation and Implementation
of Strategy) (Wales) Regulations
2007

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae adran 5 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ("Deddf 1998") yn rhoi i awdurdodau cyhoeddus penodol ("yr awdurdodau cyfrifol") mewn ardaloedd llywodraeth leol swyddogaethau sy'n ymwneud â lleihau trosedd ac anhrefn a mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Gyda'i gilydd yr enw ar yr awdurdodau hyn yng Nghymru yw Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDCau). Mae adran 6 o Ddeddf 1998 yn gosod rhwymedigaethau ar y PDCau i lunio a gweithredu strategaeth i leihau trosedd ac anhrefn a mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth bellach o ran llunio a gweithredu'r strategaeth i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

Section 5 of the Crime and Disorder Act 1998 ("the 1998 Act") gives certain public authorities ("the responsible authorities") in local government areas functions relating to the reduction of crime and disorder and the combatting of substance misuse. Collectively these authorities are known in Wales as Community Safety Partnerships (CSPs). Section 6 of the 1998 Act places obligations on CSPs to formulate and implement a strategy to reduce crime and disorder and combat substance misuse. These Regulations make further provision as to the formulation and implementation of the strategy to combat substance misuse.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod yn rhaid i'r PDCau ffurfio grwp strategaeth. Rôl y grwp strategaeth fydd paratoi asesiad strategol yn unol â rheoliadau 5 i 7 a pharatoi cynllun partneriaeth yn unol â rheoliadau 8 a 9. Dadansoddiad yw'r asesiad strategol o lefelau a phatrymau camddefnyddio sylweddau yn yr ardal a'r blaenoriaethau y dylai'r PDCau eu mabwysiadu i fynd i'r afael â'r materion hynny. Mae'r cynllun partneriaeth yn gosod strategaeth ar gyfer bodloni'r blaenoriaethau hynny a sut y dylai'r PDCau weithredu'r strategaeth honno.

Regulation 3 provides that CSPs must set up a strategy group. The role of the strategy group is to prepare a strategic assessment in accordance with regulations 5 to 7 and a partnership plan in accordance with regulations 8 and 9. The strategic assessment is an analysis of the levels and patterns of substance misuse in the area and the priorities the CSPs should adopt to address those matters. The partnership plan sets out a strategy for meeting those priorities and how that strategy should be implemented by the CSPs.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaethau i hwyluso rhannu gwybodaeth yn y PDCau ac i sicrhau bod y PDCau wrth baratoi asesiad strategol a chynllun partneriaeth yn gweithio'n agos gyda'u cymunedau lleol. Mae rheoliad 13 yn gwneud darpariaeth i'r

The Regulations also include provisions to facilitate information sharing within CSPs and ensure that when preparing a strategic assessment and partnership plan the CSPs engage with their local communities. Regulation 13 makes provision for the responsible

awdurdodau cyfrifol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Cynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn ac mae ar gael oddi wrth Margaret Hanson, Llywodraeth Cynulliad Cymru; ffôn 01685 72 9086; e-bost: Margaret.Hanson@Wales.gsi.gov.uk.

authorities to have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers. A regulatory impact assessment has been carried out in connection with these Regulations and is available from Margaret Hanson at the Welsh Assembly Government; telephone 01685 72 9086; e-mail: Margaret.Hanson@Wales.gsi.gov.uk..

2007 Rhif 3078 (Cy.265)

**CYFRAITH TROSEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Camddefnyddio
Sylweddau (Llunio a Gweithredu
Strategaeth) (Cymru)
2007**

Gwnaed 23 Hydref 2007

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 29 Hydref 2007

Yn dod i rym 19 Tachwedd 2007

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 6(2), (3), (4), (5) a (9)(b) a 114 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998(1) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(2), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Camddefnyddio Sylweddau (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007 a daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Tachwedd 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "ardal" ("*area*") yw ardal llywodraeth leol yng Nghymru;

ystyr "arian partneriaeth" ("*partnership monies*") yw arian a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru a'r awdurdodau cyfrifol ar gyfer ei wario yn unol â chyfarwyddiadau'r grwp strategaeth er mwyn cynnal llunio a gweithredu'r asesiad strategol a'r cynllun partneriaeth;

(1) 1998 p.37; amnewidiwyd adran 6 gan adran 22 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (p.48) ac Atodlen 9 iddi, ac mae mewn grym ers 19 Tachwedd 2007 (O.S. 2007/3073). Mae diwygiadau eraill i adran 114 o Ddeddf 1998 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weiniogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

2007 No. 3078 (W.265)

**CRIMINAL LAW,
WALES**

**The Substance Misuse
(Formulation and Implementation
of Strategy) (Wales) Regulations
2007**

Made 23 October 2007

*Laid before the National Assembly
for Wales* 29 October 2007

Coming into force 19 November 2007

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 6(2), (3), (4), (5) and (9)(b) and 114 of the Crime and Disorder Act 1998(1) and now vested in them(2), make the following Regulations.

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Substance Misuse (Formulation and Implementation of Strategy) (Wales) Regulations 2007 and these Regulations come into force on 19 November 2007.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations -

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the Crime and Disorder Act 1998;

"area" ("*ardal*") means a local government area in Wales;

(1) 1998 c.37; section 6 was substituted by section 22 of, and Schedule 9 to, the Police and Justice Act 2006 (c.48) and is in force from 19 November 2007 (S.I. 2007/3073). There are amendments to section 114 of the 1998 Act not relevant to these Regulations.

(2) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

ystyr "asesiad strategol" ("*strategic assessment*") yw asesiad a gaiff ei baratoi yn unol â rheoliadau 5, 6 a 7;

ystyr "awdurdodau cyfrifol" ("*responsible authorities*") yw'r awdurdodau cyfrifol dros ardal;

ystyr "blwyddyn" ("*year*") yw cyfnod o ddeuddeng mis yn dechrau ar 1 Ebrill;

ystyr "camddefnyddio sylweddau" ("*substance misuse*") yw camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill;

ystyr "cynllun partneriaeth" ("*partnership plan*") yw cynllun partneriaeth a gaiff ei baratoi o dan reoliadau 8 a 9;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998;

ystyr "grŵp strategaeth" ("*strategy group*") yw grŵp a sefydlir yn unol â rheoliad 3;

ystyr "personau a chyrrff sy'n cydweithredu" ("*co-operating persons and bodies*") yw personau a chyrrff sy'n cydweithredu wrth arfer swyddogaethau awdurdodau cyfrifol o dan adran 5(2)(1) o Ddeddf 1998.

ystyr "personau a chyrrff sy'n cymryd rhan" ("*participating persons and bodies*") yw personau a chyrrff a wahoddwyd i gymryd rhan wrth arfer swyddogaethau'r awdurdodau cyfrifol o dan adran 5(3)(2) o Ddeddf 1998; ac

ystyr "pwyllgor trosedd ac anhrefn" ("*crime and disorder committee*") yw pwyllgor a sefydlir yn unol ag adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006(3).

"co-operating persons and bodies" ("*personau a chyrrff sy'n cydweithredu*") means persons or bodies co-operating in the exercise of responsible authorities' functions under section 5(2)(1) of the 1998 Act;

"crime and disorder committee" ("*pwyllgor trosedd ac anhrefn*") means a committee established in accordance with section 19 of the Police and Justice Act 2006(2);

"participating persons and bodies" ("*personau a chyrrff sy'n cymryd rhan*") means persons and bodies invited to participate in the exercise of the responsible authorities' functions under section 5(3)(3) of the 1998 Act;

"partnership monies" ("*arian partneriaeth*") means monies provided by the Secretary of State and the Welsh Ministers and the responsible authorities for expenditure in accordance with the directions of the strategy group in support of the formulation and implementation of the strategic assessment and the partnership plan;

"partnership plan" ("*cynllun partneriaeth*") means a partnership plan prepared under regulations 8 and 9;

"responsible authorities" ("*awdurdodau cyfrifol*") means the responsible authorities for an area;

"strategic assessment" ("*asesiad strategol*") means an assessment prepared in accordance with regulations 5, 6 and 7;

"strategy group" ("*grŵp strategaeth*") means a group established in accordance with regulation 3;

"substance misuse" ("*camddefnyddio sylweddau*") means the misuse of drugs, alcohol and other substances; and

"year" ("*blwyddyn*") means a period of twelve months beginning on 1 April.

Swyddogaethau o ran llunio a gweithredu strategaeth

3.-(1) Mae grwp strategaeth i fod ar gyfer pob ardal a'i swyddogaethau fydd -

- (a) paratoi asesiadau strategol; a
- (b) paratoi a gweithredu cynllun partneriaeth;

Functions in respect of the formulation and implementation of a strategy

3.-(1) For each area there is to be a strategy group whose functions will be to -

- (a) prepare strategic assessments; and
- (b) prepare and implement a partnership plan;

(1) Diwygiwyd adran 5(2) o Ddeddf 1998 gan adran 97 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (p.30).

(2) Diwygiwyd adran 5(3) o Ddeddf 1998 gan adran 97 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.

(3) 2006 p.48. Nid yw adran 19 o Ddeddf 2006 mewn grym hyd yn hyn.

(1) Section 5(2) of the 1998 Act has been amended by section 97 of the Police Reform Act 2002 (c.30).

(2) 2006 c.48. Section 19 of the 2006 Act is not yet in force.

(3) Section 5(3) of the 1998 Act has been amended by section 97 of the Police Reform Act 2002.

ar gyfer yr ardal honno ar ran yr awdurdodau cyfrifol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) aelodau'r grwp strategaeth fydd un neu fwy o bersonau a benodwyd o bob awdurdod cyfrifol y mae'n rhaid i un ohonynt ddal swydd uwch yn yr awdurdod hwnnw.

(3) Os bydd gan yr awdurdod cyfrifol y cyfeirir ato yn adran 5(1)(a) o Ddeddf 1998 aelod etholedig sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol mae'r aelod hwnnw i fod yn un o'r personau a benodir o dan baragraff (2).

(4) Rhaid bod gan y grwp strategaeth drefniadau ar waith i lywodraethu penodiad cadeirydd, y cyfnod y mae person i wasanaethu fel cadeirydd a'r seiliau y ceir symud cadeirydd o'i swydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

(5) Rhaid i'r grwp strategaeth gyfarfod o dro i dro drwy gydol y flwyddyn fel y mae'n barnu sy'n briodol.

(6) O ran cyfarfodydd y grwp strategaeth caiff personau eu mynychu sy'n cynrychioli personau a chyrrff sy'n cydweithredu ac yn cymryd rhan ac unrhyw bersonau eraill y mae'r grwp strategaeth yn eu gwahodd.

(7) Ar adeg benodol ym mhob blwyddyn rhaid i'r grwp strategaeth ystyried a oes ganddo, a chan y personau hynny yn yr awdurdodau cyfrifol sy'n gweithio gyda'r grwp strategaeth, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arfer eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

(8) Rhaid bod gan y grwp strategaeth drefniadau ar waith i lywodraethu adolygiad o wariant yr arian partneriaeth ac er mwyn asesu cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwariant o'r fath.

Rhannu Gwybodaeth

4.-(1) Rhaid bod gan y grwp strategaeth drefniadau ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau cyfrifol a rhaid iddo baratoi protocol sy'n nodi'r trefniadau hynny.

(2) Rhaid i'r protocol rhannu gwybodaeth ymwneud â rhannu gwybodaeth-

- (a) o dan adran 17A o Ddeddf 1998(1);
- (b) o dan adran 115 o Ddeddf 1998(2); ac

(1) Mewnosodwyd adran 17A yn Neddf 1998 gan adran 22 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ac Atodlen 9 iddi ac mae mewn grym ers 19 Tachwedd 2007 (O.S.2007/3073).

(2) Diwygiwyd adran 115 gan adran 74 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 (p.43) ac Atodlen 7 iddi, adran 97 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, adran 219 o Ddeddf Tai 2004 (p.34), adran 22 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ac Atodlen 9 iddi (mae'r diwygiadau hynny mewn grym ers 19 Tachwedd 2007 (O.S. 2007/3073) ac O.S. 2000/90 ac O.S.2002/2469.

for that area on behalf of the responsible authorities.

(2) Subject to paragraph (3) the members of the strategy group are to consist of one or more persons appointed from each responsible authority one of whom must hold a senior position in that authority.

(3) Where the responsible authority referred to in section 5(1)(a) of the 1998 Act has an elected member responsible for community safety, that member is to be one of the persons appointed under paragraph (2).

(4) The strategy group must have in place arrangements governing the appointment of a chair, the period for which a person is to serve as chair and the grounds on which the chair may be removed during that period.

(5) The strategy group must meet from time to time throughout the year as it considers appropriate.

(6) Strategy group meetings may be attended by persons who represent co-operating and participating persons and bodies and such other persons as the strategy group invites.

(7) At some point within each year the strategy group must consider whether it, and those persons in the responsible authorities who work with the strategy group, have the requisite knowledge and skills to exercise their functions under these Regulations.

(8) The strategy group must have in place arrangements governing the review of the expenditure of partnership monies and for assessing the economy, efficiency and effectiveness of such expenditure.

Information Sharing

4.-(1) The strategy group must have in place arrangements for the sharing of information between responsible authorities and must prepare a protocol setting out those arrangements.

(2) The information sharing protocol must relate to the sharing of information -

- (a) under section 17A of the 1998 Act(1);
- (b) under section 115 of the 1998 Act(2); and

(1) Section 17A was inserted into the 1998 Act by section 22 of, and Schedule 9 to, the Police and Justice Act 2006 and is in force from 19 November 2007 (S.I.2007/3073).

(2) Section 115 has been amended by section 74 of, and Schedule 7 to, the Criminal Justice and Court Services Act 2000 (c.43), section 97 of the Police Reform Act 2002, section 219 of the Housing Act 2004 (c.34), section 22 of, and Schedule 9 to, the Police and Justice Act 2006 (those amendments are in force from 19 November 2007 (S.I. 2007/3073) and by S.I 2000/90 and S.I.2002/2469.

- (c) fel arall at ddibenion llunio a gweithredu asesiad strategol a chynllun partneriaeth ar gyfer yr ardal.

(3) Rhaid i bob awdurdod cyfrifol gydymffurfio â'r protocol a baratoir o dan baragraff (1) ac enwebu person sydd o fewn yr awdurdod hwnnw i hwyluso rhannu gwybodaeth o dan y protocol.

Asesiad Strategol

5.-(1) Yn ystod pob blwyddyn rhaid i'r grwp strategaeth baratoi asesiad strategol ar ran yr awdurdodau cyfrifol.

(2) Diben yr asesiad strategol yw er mwyn cynorthwyo'r grwp strategaeth i adolygu'r cynllun partneriaeth.

6. Wrth baratoi'r asesiad strategol rhaid i'r grwp strategaeth ystyried-

- (a) gwybodaeth a roddir iddo gan awdurdodau cyfrifol;
- (b) gwybodaeth a roddir iddo gan bersonau a chyrrff sy'n cydweithredu;
- (c) gwybodaeth a roddir iddo gan bersonau a chyrrff sy'n cymryd rhan;
- (ch) gwybodaeth a roddir iddo gan y pwyllgor trosedd ac anhrefn ar gyfer yr ardal;
- (d) y cynllun partneriaeth ar gyfer y flwyddyn honno; ac
- (dd) unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal a roddir i'r awdurdodau cyfrifol gan bersonau sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

7. Rhaid i asesiad strategol gynnwys-

- (a) dadansoddiad o lefelau a phatrymau camddefnyddio sylweddau yn yr ardal;
- (b) dadansoddiad o'r newidiadau yn y lefelau a'r patrymau hynny ers yr asesiad strategol blaenorol;
- (c) dadansoddiad o'r rhesymau paham mae'r newidiadau hynny wedi digwydd;
- (ch) y materion y dylai pob awdurdod cyfrifol eu blaenoriaethu wrth arfer ei swyddogaethau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal;
- (d) y materion mae personau sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal yn ystyried y dylai pob awdurdod cyfrifol eu blaenoriaethu wrth arfer ei swyddogaethau i leihau camddefnyddio sylweddau yn yr ardal; ac
- (dd) asesiad sy'n dangos i ba raddau y gweithredwyd y cynllun partneriaeth ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

- (c) otherwise for the purpose of formulating and implementing a strategic assessment and partnership plan for the area.

(3) Each responsible authority must comply with the protocol prepared under paragraph (1) and nominate a person within that authority to facilitate the sharing of information under the protocol.

Strategic Assessments

5.-(1) During each year the strategy group must prepare a strategic assessment on behalf of the responsible authorities.

(2) The purpose of the strategic assessment is to assist the strategy group in revising the partnership plan.

6. In preparing the strategic assessment the strategy group must consider -

- (a) information provided to it by the responsible authorities;
- (b) information provided to it by co-operating persons and bodies;
- (c) information provided to it by participating persons and bodies;
- (d) information provided to it by the crime and disorder committee for the area;
- (e) the partnership plan for that year; and
- (f) any other information relating to substance misuse in the area given to the responsible authorities by persons living and working in the area.

7. A strategic assessment must include-

- (a) an analysis of the levels and patterns of substance misuse in the area;
- (b) an analysis of the changes in those levels and patterns since the previous strategic assessment;
- (c) an analysis of why those changes have occurred;
- (d) the matters which each responsible authority should prioritise when exercising its functions to combat substance misuse in the area;
- (e) the matters which the persons living and working in the area consider that each responsible authority should prioritise when exercising its functions to reduce substance misuse in the area; and
- (f) an assessment of the extent to which the partnership plan for the previous year has been implemented.

Cynlluniau partneriaeth

8.-(1) Rhaid i'r grwp strategaeth baratoi cynllun partneriaeth ar gyfer yr ardal.

(2) Cyn dechrau pob blwyddyn rhaid i'r grwp strategaeth adolygu'r cynllun partneriaeth.

(3) Pan adolygir y cynllun partneriaeth rhaid i'r grwp strategaeth ystyried yr asesiad strategol a luniwyd yn ystod y flwyddyn cyn y flwyddyn y cyfeirir ati ym mharagraff (2).

9. Rhaid i'r cynllun partneriaeth nodi -

- (a) strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal yn y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau gyda'r flwyddyn y cyfeirir ati yn rheoliad 8(2);
- (b) y blaenoriaethau a ganfyddwyd yn yr asesiad strategol a baratowyd yn ystod y flwyddyn cyn y flwyddyn y cyfeirir ati yn rheoliad 8(2);
- (c) y camau y mae'r grwp strategaeth yn ystyried bod angen i'r awdurdodau cyfrifol eu cymryd i weithredu'r strategaeth honno a bodloni'r blaenoriaethau hynny;
- (ch) sut y mae'r grwp strategaeth yn ystyried y dylai'r awdurdodau cyfrifol ddyrannu a threfnu eu hadnoddau i weithredu'r strategaeth honno a bodloni'r blaenoriaethau hynny;
- (d) y camau y mae'n rhaid i bob awdurdod cyfrifol eu cymryd i fesur ei lwyddiant yn gweithredu'r strategaeth a bodloni'r blaenoriaethau hynny; ac
- (dd) y camau y mae'r grwp strategaeth yn bwriadu eu cymryd yn ystod y flwyddyn i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan reoliadau 10, 11 a 12.

Gweithio'n Agos gyda'r Gymuned

10.-(1) At ddibenion paratoi'r asesiad strategol a pharatoi a gweithredu'r cynllun partneriaeth rhaid i'r grwp strategaeth wneud trefniadau i gael barn personau a chyrrff sy'n byw a gweithio yn yr ardal ynghylch-

- (a) y lefelau a'r patrymau o gamddefnyddio sylweddau yn yr ardal; a
- (b) y materion y dylai pob awdurdod cyfrifol eu blaenoriaethu wrth iddo arfer ei swyddogaethau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal.

(2) Rhaid i'r trefniadau o dan baragraff (1), i'r graddau y mae'n rhesymol, ddarparu ar gyfer ymgynghori â'r canlynol-

- (a) personau y mae'n ymddangos i'r grwp strategaeth eu bod yn cynrychioli buddiannau cymaint o grwpiau neu bersonau gwahanol yn yr ardal ag sy'n rhesymol; a

Partnership plans

8.-(1) The strategy group must prepare a partnership plan for the area.

(2) Before the start of each year the strategy group must revise the partnership plan.

(3) When revising the partnership plan the strategy group must consider the strategic assessment produced during the year prior to the year referred to in paragraph (2).

9. The partnership plan must set out -

- (a) a strategy for combatting substance misuse in the area in the three year period beginning with the year referred to in regulation 8(2);
- (b) the priorities identified in the strategic assessment prepared during the year prior to the year referred to in regulation 8(2);
- (c) the steps the strategy group considers it necessary for the responsible authorities to take to implement that strategy and meet those priorities;
- (d) how the strategy group considers the responsible authorities should allocate and deploy their resources to implement that strategy and meet those priorities;
- (e) the steps each responsible authority must take to measure its success in implementing the strategy and meeting those priorities; and
- (f) the steps the strategy group proposes to take during the year to comply with its obligations under regulations 10, 11 and 12.

Community Engagement

10.-(1) For the purposes of preparing the strategic assessment and preparing and implementing the partnership plan the strategy group must make arrangements for obtaining the views of persons and bodies who live or work in the area about -

- (a) the levels and patterns of substance misuse in the area; and
- (b) the matters which each responsible authority should prioritise when exercising its functions to combat substance misuse in the area.

(2) The arrangements under paragraph (1) must, so far as is reasonable, provide for consultation with -

- (a) persons who appear to the strategy group to represent the interests of as many different groups or persons within the area as is reasonable; and

(b) personau y mae'n ymddangos i'r grwp strategaeth eu bod yn cynrychioli buddiannau'r grwpiau neu'r personau hynny yn yr ardal sy'n debygol yr effeithir arnynt yn benodol wrth weithredu'r cynllun partneriaeth.

(3) Wrth wneud y trefniadau o dan baragraff (1) rhaid i'r grwp strategaeth roi sylw i unrhyw ymgynghoriad arall gyda phersonau sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal honno a hwnnw'n ymgynghoriad a gynhelir gan yr awdurdodau cyfrifol o ran y materion a bennir yn is-baragraffau 1(a) a (b) heblaw o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Rhaid i'r trefniadau a wneir o dan baragraff (1) ddarparu-

- (a) bod y grwp strategaeth yn cynnal un cyfarfod cyhoeddus neu fwy yn ystod pob blwyddyn;
- (b) y mynychir y cyfarfodydd hynny gan bersonau sy'n dal swyddi uwch ym mhob un o'r awdurdodau cyfrifol;
- (c) bod yn rhaid i'r grwp strategaeth gymryd y camau hynny y mae'n barnu sy'n briodol i ddwyn i sylw personau sy'n byw a gweithio yn yr ardal, neu y gallai fel arall fod ganddynt ddiddordeb, wybodaeth ynghylch-
 - (i) pryd y cynhelir y cyfarfodydd hynny; a
 - (ii) yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfodydd hynny.

11. Wrth baratoi'r cynllun partneriaeth rhaid i'r grwp strategaeth ystyried i ba raddau y gall personau sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal gynorthwyo'r awdurdodau cyfrifol i leihau camddefnyddio sylweddau yn yr ardal.

12. Rhaid i'r grwp strategaeth gyhoeddi yn yr ardal grynoded o'r cynllun partneriaeth ar y ffurf y mae'n ystyried sy'n briodol, gan gofio bod angen ei ddwyn i sylw cymaint o grwpiau neu bersonau gwahanol yn yr ardal ag sy'n rhesymol.

Canllawiau

13. Wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn rhaid i'r awdurdodau cyfrifol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru .

Darpariaethau Trosiannol

14.-(1) Hyd nes y bydd adran 19 (craffu gan awdurdod lleol ar faterion trosedd ac anhrefn) o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 yn cychwyn bydd rheoliad 6 yn effeithiol fe pe bai paragraff (ch) wedi'i hepgor.

(2) Ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau 1 Ebrill 2008 yn lle'r cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at adolygu'r cynllun partneriaeth rhodder cyfeiriadau at baratoi'r cynllun partneriaeth.

(b) persons who appear to the strategy group to represent the interests of those groups or persons within the area likely to be particularly affected by the implementation of the partnership plan.

(3) In making the arrangements under paragraph (1) the strategy group must have regard to any other consultation with persons who live or work in that area that is undertaken by the responsible authorities in relation to the matters specified in sub-paragraphs 1(a) and (b) other than under these Regulations.

(4) The arrangements made under paragraph (1) must provide that -

- (a) the strategy group hold one or more public meetings during each year;
- (b) that such meetings are attended by persons who hold a senior position within each of the responsible authorities;
- (c) the strategy group must take steps as it considers appropriate to bring to the attention of persons who live or work in the area, or who might otherwise be interested, information about -
 - (i) when such meetings are held; and
 - (ii) what was discussed at such meetings.

11. In preparing the partnership plan the strategy group must consider the extent to which persons who live or work in the area might assist the responsible authorities in reducing substance misuse in the area.

12. The strategy group must publish in the area a summary of the partnership plan in such form as it considers appropriate, having regard to the need to bring it to the attention of as many different groups or persons within the area as is reasonable.

Guidance

13. In exercising their functions under these Regulations the responsible authorities must have regard to any guidance given by the Welsh Ministers.

Transitional Provisions

14.-(1) Until the commencement of section 19 (local authority scrutiny of crime and disorder matters) of the Police and Justice Act 2006 regulation 6 is to have effect as if paragraph (d) were omitted.

(2) For the year beginning 1 April 2008 for the references in these Regulations to revising the partnership plan are to be substituted references to preparing the partnership plan.

Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a
Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one
of the Welsh Ministers

23 Hydref 2007

23 October 2007

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2007 Rhif 3078 (Cy.265)

**CYFRAITH TROSEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Camddefnyddio
Sylweddau (Llunio a Gweithredu
Strategaeth) (Cymru) 2007

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2007 No. 3078 (W.265)

**CRIMINAL LAW,
WALES**

Substance Misuse (Formulation
and Implementation of Strategy)
(Wales) Regulations 2007

© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W175/11/07

ON